Eitem ar yr agenda:  9

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| DYDDIAD: | 19 MEDI 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | Y TRYSORYDD |
| PWNC: | RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS |

1. CYFLWYNIAD

Mae'n ofyniad dan Gôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd ac unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd.  Hefyd, mae angen adrodd ynghylch unrhyw newidiadau i'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol, fel sy'n ofynnol gan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a rhaid i'r Awdurdod Tân gymeradwyo unrhyw newidiadau.

2. Y DANGOSYDDION DARBODUS 2005-2006

Cafodd y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2005-2006 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân yn Rhagfyr 2004, ynghyd â'r Gyllideb.  Ers iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifir ar gyfer 2005-2006 ymlaen wedi newid oherwydd newid yn ariannu'r rhaglen gyfalaf ar ddiwedd 2004-2005 a newid yn y cyfraddau llog.  Cafodd rhan o'r tanwariant refeniw yn 2004-2005 ei ddefnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf, ac effaith hyn yw gostyngiad yng ngwerth rhai o'r Dangosyddion Darbodus amcangyfrifedig.  Mae Atodiad A yn rhestru'r dangosyddion yr adroddwyd yn eu cylch ym mis Rhagfyr a'r dangosyddion diwygiedig.

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn fesur o'r ddyled hirdymor sydd ei hangen i gynnal rhaglen gyfalaf yr Awdurdod, ac mae'r dangosydd hwn wedi cael ei leihau fel yr esbonnir uchod.  Mae'r Ffin Gweithredol yn fesur o'r ddyled allanol mwyaf posib, gan ganiatáu ar gyfer yr uchafion a'r gwaelodion mewn llif arian, mae'r terfyn wedi cael ei ostwng eto oherwydd y rhesymau uchod.  Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad o ofynion yr ochr weithredol a'r risgiau allanol, ac mae'r terfyn hwn hefyd wedi cael ei ostwng.

Mae'r gwariant cyfalaf wedi codi'n uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd i gynlluniau beidio â chael eu cwblhau'n llawn yn 2004-2005 ac iddynt dreiglo drosodd i 2005-2006.

3. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2005-2006

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn nodi gweithgarwch tebygol staff Rheoli'r Trysorlys ac yn gosod terfynau ar y swm a'r math o fenthyca i'w gwneud yn ystod y flwyddyn.  Er mwyn gwarchod yr Awdurdod rhag bod yn agored i gyfraddau llog, mae terfyn wedi cael ei osod ar y swm o fenthyca cyfradd sefydlog a chyfradd newidiol.  Mae Butlers, sef ymgynghorwyr trysoryddol a benodwyd gan Gonwy, wedi cynghori'r Awdurdod i symud o fenthyca cyfradd newidiol i fenthyca cyfradd

sefydlog oherwydd yr amgylchiadau yn y farchnad ar hyn o bryd sydd wedi arwain at sefyllfa lle mae benthyca cyfradd sefydlog gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus *(Public Works Loan Board (PWLB))* yr isaf fu erioed. Er mwyn manteisio ar y cyfraddau isel, bydd raid newid y terfynau ar fenthyca cyfradd sefydlog a newidiol. Mae'r tabl isod yn rhestru'r terfynau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr a'r terfynau newydd sy'n cael eu cynnig.

| | Benthyca a Gymeradwywyd % | Benthyca Newydd a Gynigir % |
|---|---|---|
| Dyled Cyfradd Llog Sefydlog | 55 – 90 | 55 – 100 |
| Dyled Cyfradd Llog Newidiol | 10 – 45 | 0 – 45 |

4. ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig a'r terfynau newydd a gynigir ar fenthyca cyfradd sefydlog a newidiol.

K W FINCH
**Trysorydd**

## *ATODIAD A*

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | 2005/06<br>£ | 2006/07<br>£ | 2007/08<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | | | |
| | Y Dangosydd Gwreiddiol | 2,483,000 | 2,537,000 | 2,934,000 |
| | Y Dangosydd Newydd | 2,786,910 | 2,537,000 | 2,934,000 |
| 2 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf | | | |
| | Y Dangosydd Gwreiddiol | 9,335,000 | 11,316,000 | 13,475,000 |
| | Y Dangosydd Newydd | 8,842,290 | 10,782,730 | 12,888,960 |
| 3 | Y Terfyn Awdurdodedig | | | |
| | Y Dangosydd Gwreiddiol | 13,790,000 | 15,271,000 | 17,430,000 |
| | Y Dangosydd Newydd | 13,074,000 | 14,017,000 | 16,123,000 |
| 4 | Y Ffin Gweithredol | | | |
| | Y Dangosydd Gwreiddiol | 11,790,000 | 13,271,000 | 15,430,000 |
| | Y Dangosydd Newydd | 11,074,000 | 12,017,000 | 14,123,000 |
| 5 | Cymhareb Costau Ariannu i Lif Refeniw Net | | | |
| | Y Dangosydd Gwreiddiol | 2.67% | 3.50% | 4.37% |
| | Y Dangosydd Newydd | 2.58% | 3.50% | 4.37% |
| 6 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddiadau Cyfalafol ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol | 60,843 | 481,513 | 856,370 |
| | Y Dangosydd Gwreiddiol | 64,152 | 381,705 | 713,762 |
| | Y Dangosydd Newydd | | | |